1. Nid yw menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn diwydiannau STEM a byddai ymyriadau cynnar wedi'u targedu ar oedran cynnar yn helpu i leihau'r bwlch rhwng dynion a menywod.
2. Mae'n bwysig bod gan fodelau rôl benywaidd o ddiwydiannau STEM ran weithgar yn y gwaith o ymgysylltu ac addysgu ym meysydd STEM, er mwyn helpu i annog merched i gyflawni eu llawn botensial a dilyn gyrfaoedd mewn diwydiannau STEM yn ddirwystr.

3. Mae'n hanfodol sicrhau bod strwythurau ar gael er mwyn helpu rhieni sy'n gweithio neu gynhalwyr sy'n dilyn gyrfaoedd STEM er mwyn sicrhau hirhoedledd eu gyrfaoedd a chreu amgylchedd gweithio mwy hyblyg sy'n fwy ystyriol o deuluoedd.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Pa effaith y mae strategaeth Llywodraeth Cymru *Gwyddoniaeth i Gymru* a'r Cynllun Cyflenwi wedi'i gael ar sgiliau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) yng Nghymru?

1.1. Mae buddsoddiadau Llywodraeth Cymru i'r cynllun *Cynyddu'r Gronfa Dalentau mewn Gwyddoniaeth a Pheirianneg* drwy brosiectau ymgysylltu STEM yn amhrisiadwy gan annog pobl ifanc i ymgysylltu â gwyddoniaeth. Mae'r prosiectau ymgysylltu sydd ar gael gan Techniquest fel rhan o'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol a'u rhaglenni allgymorth (fel MathCymru) yn hanfodol i wneud pynciau STEM yn hygyrch. Mewn arolwg PISA yn 2012, adroddodd disgyblion eu bod yn teimlo bod y cymorth gan athrawon mathemateg mewn ysgolion yng Nghymru yn uwch na lefel cyfartalog y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)[1]. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth sydd ar gael yn dangos a yw mwy o ferched yn cael eu hannog i astudio pynciau STEM.

1.1. Roedd arolwg PISA 2012 yn dangos bod Cymru wedi sgorio'n sylweddol is na Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac yn is na lefel gyfartalog yr OECD mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Ni chafodd y data sydd ar gael ei ddadgyfuno yn ôl rhyw, mae'n hanfodol monitro cynnydd bechgyn a merched ar wahân, er mwyn sicrhau eu bod yn uniaethu i'r un graddau â phynciau STEM.

Argymhelliad 1: Sicrhau bod data yn cael ei gasglu er mwyn monitro addysg a chyflogaeth STEM. Bydd hyn yn darparu meincnod ac yn sicrhau y gellir monitro cynnydd.

2. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i'r agenda STEM yn 2011?

2.1 Mae'n bwysig bod mentrau yn annog plant i gymryd rhan mewn pynciau STEM o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen. Mae prosiectau Ymgysylltu, fel STEM Cymru, yn gweithio er mwyn creu delwedd gadarnhaol o ddiwydiannau STEM i blant. At hynny, mae prosiect STEM Cymru, *Denu Merched i Faes Peirianneg*, yn hanfodol o ran galluogi merched i ddilyn gyrfaoedd ym maes Peirianneg a STEM, diwydiannau sydd â diffyg cynrychiolaeth o blith menywod.

2.2 Adroddodd Estyn fod y mwyafrif o adrannau gwyddoniaeth mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru yn cael eu harwain yn effeithiol gan athrawon sy'n frwdfrydig ynglŷn â gwyddoniaeth [1]. Fodd bynnag, dim ond tua hanner arweinwyr ein hysgolion cynradd

[1] Adroddiad Estyn i Gwyddoniaeth yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 - Mehefin 2013

sydd â gweledigaeth glir ar gyfer datblygu gwyddoniaeth yn eu hysgolion. Felly, mae angen i blant o oedran cynnar gymryd rhan mewn gwyddoniaeth drwy ddefnyddio athrawon arbenigol STEM neu ailhyfforddi athrawon yn y pynciau STEM. At hynny, byddai merched ifanc yn cael budd o ddod i gysylltiad â modelau rôl benywaidd mewn diwydiannau STEM, gan eu helpu i uniaethu â'r pwnc sy'n gallu dangos rhagfarnau ar sail rhyw yn aml iawn.

2.3 Nid yw'r data sydd ar gael yn dangos a yw'r newidiadau sydd wedi'u rhoi ar waith wedi arwain at fwy o ferched ifanc yn dangos diddordeb mewn gwyddoniaeth. Mae ein prosiectau ein hunain, Bwrw iddi gyda Gwyddoniaeth (a ddarparwyd mewn partneriaeth â ContinYou Cymru) a'r cynllun Dechrau'n Deg, rhan o'r prosiect Cenedl Hyblyg), yn awgrymu nad yw gwersi Gwyddoniaeth o ddiddordeb i ferched a dylid gwirio'u hapêl at y rhywiau ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod merched a bechgyn yn cymryd rhan i'r un graddau.

Argymhelliad 2: Dylid sicrhau bod apêl deunyddiau dysgu a mentrau ymgysylltu â phynciau STEM i'r rhywiau yn cael ei wirio ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod merched a bechgyn yn cymryd rhan i'r un graddau.

3. **Digonolrwydd y ddarpariaeth o sgiliau STEM mewn ysgolion, colegau addysg bellach, sefydliadau addysg uwch a dysgu'n seiliedig ar waith (gan gynnwys prentisiaethau);**

3.1 Ar hyn o bryd, mae menywod yn parhau i beidio â chael eu cynrychioli'n ddigonol mewn gyrfaoedd STEM. Mae'n bwysig sicrhau bod merched yn cael eu hannog i ymroi i bynciau STEM ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u potensial i lwyddo yn y meysydd hyn. Mae gwaith ymchwil yn dangos y gall hunanhyder merched yn y pynciau hyn effeithio ar ba mor dda y cyflawnant mewn pynciau STEM, ac mae cyflwyno merched i'r stereoteip na allant lwyddo yn y pynciau hyn[2] yn effeithio ar eu hyder.

3.2 Nid yw menywod yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn prentisiaethau STEM yn benodol, gan gyfrif am 3% yn unig o brentisiaethau peirianneg[3] er enghraifft.

Argymhelliad 3: Mae angen sicrhau bod mentrau ar waith er mwyn annog mwy o fenywod i astudio pynciau STEM ym maes addysg bellach, addysg uwch a dilyn prentisiaethau STEM.

4. Gwerth am arian o'r cyllid ychwanegol i gefnogi a hyrwyddo sgiliau STEM ac a yw'r cyflenwad presennol o sgiliau STEM yn diwallu anghenion marchnad lafur Cymru;

4.1 Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo sgiliau STEM gan fod diwydiannau STEM yn cael eu hystyried yn hanfodol i'r economi modern ac mae ganddynt botensial mawr o ran twf economaidd i Gymru. Felly mae buddsoddi mewn sgiliau STEM yn amhrisiadwy i economi Cymru yn y dyfodol.

4.2 Mae'r data sydd ar gael ar y cyflenwad a'r galw mewn perthynas ag unigolion sydd â sgiliau STEM yng ngweithlu'r DU yn gyfyngedig ac mae peth amwysedd am y sgiliau

[2] Simpkins, S.D. a Davis-Kean, P.E. (2005). The intersection between self-concepts and values: Links between beliefs and choices in high school. New directions for child and adolescent development. Pg. 31-47
[3] http://www.thedataservice.org.uk/statistics/statisticalfirstrelease/sfr_supplementary_tables/Apprenticeship_sfr_supplementary_tables/

y mae'r diwydiant yn eu dymuno. Y gred yw bod hyn yn arwain at ddiffyg eglurder o ran beth ddylai addysg STEM fod yn ceisio'i gyflawni[6].

4.3 Mae menywod yn parhau i beidio â chael eu cynrychioli'n ddigonol mewn diwydiannau STEM ac felly ni fydd sgiliau menywod yn y pynciau STEM yn cael eu defnyddio'n llawn yn y maes hwn o dwf economaidd posibl. Y gred yw y gallai'r broses o harneisio'r potensial llawn sydd gan fenywod greu twf economaidd.
Felly, mae'n bwysig bod yr holl rywiau'n cael eu targedu'n gyfartal wrth hyrwyddo sgiliau STEM, er mwyn helpu menywod i gael mynediad i yrfa STEM a manteisio'n llawn ar eu potensial.

Argymhelliad 4: Cydweithio â chyflogwyr STEM er mwyn deall bylchau mewn sgiliau a nodi sut y gallant sicrhau bod yr holl sgiliau yn cael eu defnyddio'n llawn.

5. Y cyflenwad o weithwyr addysg proffesiynol a all addysgu pynciau STEM ac effaith Grantiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a'r Rhaglen Athrawon Graddedig ar recriwtio athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol STEM;

5.1 Ar hyn o bryd, prin yw'r data sydd ar gael ar nifer y graddedigion a ddilynodd bynciau STEM ac sydd, yn ddiweddar, wedi mynd yn athrawon. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod prinder athrawon yn y pynciau STEM yn arwain at nifer llai o fyfyrwyr yn astudio pynciau STEM at lefel A[4].

5.2 Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod lefelau isel o ymwybyddiaeth o'r rhywiau ymysg athrawon a chynghorwyr gyrfa yn creu rhwystr i ferched sydd am ddilyn galwedigaethau STEM. Felly, rydym yn galw am i'r cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion, y Radd Meistr mewn Addysg a chymwysterau Gyrfaoedd gynnwys hyfforddiant arbenigol. Dylid sicrhau hefyd fod Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gael ar gyfer y gweithwyr proffesiynol hyn er mwyn ategu'r dysgu a sicrhau ei fod yn cael effaith.

Argymhelliad 5: Dylid sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r rhywiau yn rhan annatod o'r cwrs TAR, y Radd Meistr mewn Addysg a hyfforddiant proffesiynol y Gwasanaeth Gyrfaoedd er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth o stereoteipio ar sail rhyw ac annog mwy o fenywod i ddilyn cyrsiau STEM[5].

6. Effeithiolrwydd y cysylltiadau addysg a busnes rhwng sefydliadau addysg a chyflogwyr STEM.

6.1 Prin yw'r data sydd ar gael ar y cyflenwad a'r galw mewn perthynas ag unigolion sydd â sgiliau STEM yng ngweithlu'r DU, ac mae hyn wedi arwain at ansicrwydd ynglŷn â'r sgiliau y mae darpar gyflogwyr yn eu dymuno a'r hyn y dylai addysg STEM fod yn ceisio'i gyflawni.

[4] Nath, C. a Border, P. (2013). STEM education for 14-19 year olds.Senedd y DU.
[5] Maniffesto Chwarae Teg (2014). Cymru lle mae Menywod yn Cyflawni ac yn Ffynnu. Caerdydd, Chwarae Teg

Argymhelliad 6: Hybu cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion a busnesau lleol, gan ganolbwyntio ar gynnig amrywiaeth ehangach o ddewisiadau i ferched drwy fodelau rôl cadarnhaol a phrofiad gwaith ystyrlon[7].

7.A oes unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r safbwyntiau negyddol a'r stereoteip ar sail rhyw sy'n gysylltiedig â STEM a hyrwyddo arfer da i annog menywod i feithrin sgiliau STEM a dilyn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM.

7.1 Mae menywod yn cyfrif am tua 15% o swyddi STEM a thua 42% o fyrddau cwmnïau FTSE STEM. Yn ychwanegol at hynny, mae nifer sylweddol is o raddedigion benywaidd STEM yn mynd ymlaen i weithio mewn swyddi STEM o gymharu â dynion graddedig. Felly, mae angen gwneud rhagor o waith o hyd er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn rhwng y rhywiau.

7.2 Nododd prosiect Chwarae Teg a Continu Cymru *Bwrw Iddi Gyda Gwyddoniaeth* pa mor bwysig yw cynnwys merched o oedran ysgol mewn gwyddoniaeth a darparu modelau rôl benywaidd proffesiynol i ddangos eu potensial[6]. Mae hyn yn ategu'r gwaith ymchwil a oedd yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae cyflwyno modelau rôl benywaidd yn ei chael ar blant oedran ysgol. Roedd hyn yn newid eu hagwedd tuag at wyddoniaeth a thuag at fenywod mewn diwydiannau hefyd[7].

7.3 Mae gwaith ymchwil yn dangos mai hunanhyder yw'r prif ffactor sy'n cyfrannu at y ffaith bod merched yn dilyn pynciau STEM. Y gred yw bod y stereoteip negyddol sy'n dangos bod merched yn llai medrus mewn pynciau STEM yn gwaethygu eu perfformiad yn y pynciau. Felly, mae'n bwysig mynd i'r afael ag anwiredd y stereoteip hwn, er mwyn sicrhau nad yw merched yn cael eu rhwystro rhag dilyn y pynciau hyn. Roedd prawf Pisa OECD yn dangos bod merched yn tanberfformio mewn Mathemateg yn y mwyafrif o wledydd o gymharu â bechgyn. Fodd bynnag, yn y gwledydd sy'n cynnig mwy o gyfle cyfartal ac adnoddau i ddynion a menywod (fel Gwlad yr Iâ, Norwy a Sweden), mae'r bwlch rhwng y rhywiau mewn pynciau STEM yn gostwng yn sylweddol[8].

7.1 Mae natur diwydiannau STEM yn golygu bod y gwaith yn ymestyn y tu hwnt i oriau swyddfa yn aml ac felly yn creu amgylchedd anhyblyg nad yw'n ystyriol o deuluoedd, gan arwain at anawsterau i weithwyr cyflogedig sydd â theuluoedd (mae'r cyfrifoldebau'n effeithio ar fenywod yn fwy na dynion fel arfer). At hynny, oherwydd natur gyfnewidiol y diwydiannau STEM, gall unrhyw seibiant gyrfa arwain at gael eich gadael ar ôl, ac mae'r broblem hon yn effeithio ar fenywod yn bennaf sy'n gweithio mewn diwydiannau STEM, gan mai menywod sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau teuluol gan mwyaf ac mae hyn yn arwain at seibiannau gyrfa. Mae'n bwysig bod strwythurau cymorth ar waith sy'n sicrhau y gellir cael hyblygrwydd a chymorth i rieni sy'n gweithio neu gynhalwyr mewn diwydiannau STEM.

Argymhelliad 7: Mae angen rhoi mentrau ar waith er mwyn annog merched o oedran ifanc i ddilyn Gwyddoniaeth, dylai hyn gynnwys hyrwyddo modelau rôl benywaidd. Mae'n rhaid rhoi strwythurau cymorth ar waith hefyd er mwyn helpu rhieni sy'n gweithio mewn diwydiannau STEM.

---

[6] Chwarae Teg (2012) Bwrw iddi gyda Gwyddoniaeth, Caerdydd, Chwarae Teg

[7] Smith, W.S. ac Owen, T. (2006) Effect of women in science career role models on early adolescents' attitude toward scientists and women in science. Journal of Research in Science Teaching, Tud 667-676.

[8] Adroddiad OECD (2014) Are boys and girls equally prepared for life?

Am ragor o wybodaeth gan Chwarae Teg, cysylltwch â:

- Christine O'Byrne – christine.o'byrne@chwaraeteg.com
- 02920 478900 / 07787 295658
- www.chwaraeteg.com

Ymchwiliad dilynol gan y Pwyllgor Menter a Busnes i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM):
Ymateb gan CITB Cymru Wales

Mae CITB Cymru Wales yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad dilynol gan y Pwyllgor Menter a Busnes i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Mae darpariaeth STEM ddigonol yn hanfodol ar gyfer gosod y seiliau ar gyfer gyrfaoedd yn y sector adeiladu, gan roi cyfle i'r genhedlaeth nesaf o weithwyr adeiladu yng Nghymru symud ymlaen at brentisiaethau a hyfforddiant.

Pa gynnydd a wnaed yn mynd i'r afael â'r materion a amlygwyd yn yr ymchwiliad dilynol gan y Pwyllgor Menter a Busnes yn 2011 i'r agenda STEM, yn cynnwys:

- **Digonolrwydd darpariaeth sgiliau STEM mewn ysgolion, colegau addysg bellach, addysg uwch a dysgu yn y gweithle (gan gynnwys prentisiaethau);**

  Yr argraff gyffredinol a glywir ar lafar gwlad gan gyflogwyr yw bod gan weithwyr, ac yn enwedig felly weithwyr iau gan gynnwys prentisiaethau, sgiliau llythrennedd a rhifedd isel a heb eu datblygu'n iawn. Mae'n ymddangos fod hynny'n wir yn Lloegr yn ogystal ag yng Nghymru, ac nid yw felly'n fater i Gymru'n unig. Ceir yr un pryder ynghylch graddedigion ynghyd â phobl sy'n ymuno â'r gweithlu ar y lefel is. Mae'n ymddangos fod rhifedd a STEM wedi cael eu rhoi i'r naill ochr wrth i faterion ynghylch Llythrennedd a TGAU Saesneg gael sylw yng Nghymru dros y misoedd diwethaf.

  Yn ystod trafodaethau gyda cholegau Addysg Bellach mae'n amlwg eu bod yn gorfod gwneud cryn dipyn o waith adfer gyda'r myfyrwyr a'r prentisiaid sy'n dod atynt er mwyn iddynt gyrraedd y safon angenrheidiol, sef tua Gradd C TGAU, rhywbeth sy'n gostus o ran amser ac adnoddau. Gellid dweud fod datblygu sgiliau STEM myfyrwyr ôl 16 yn fwy fyth o her gan y bydd gan y dysgwyr brofiad o sawl blwyddyn o fethiant yn yr ysgol uwchradd mewn pynciau fel Mathemateg, ac maent hefyd yn y cyfnod trosiannol rhwng eu harddegau a thyfu'n oedolion a byd gwaith, a'r holl bethau eraill sy'n mynd â'u bryd yn ystod y cyfnod hwnnw.

  O safbwynt meithrin y sgiliau STEM sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer Prentisiaethau Adeiladu, sydd yn y bôn yn fater o wneud cyfrifiadau sylfaenol o symiau, cymarebau ac onglau, fe ddylent fod wedi cael eu dysgu a'u hatgyfnerthu erbyn diwedd cyfnod yr ysgol gynradd a'u datblygu a'u cyfoethogi yn ystod y cyfnodau addysg sy'n dilyn. Nid yw'n rhesymol credu fod dysgwyr yn 'colli' sgiliau a ddysgwyd yn ystod y cyfnod addysg uwchradd, ac mae'n wastraffus i gyflogwyr, addysg bellach ac addysg uwch geisio rhoi 'darnau' methiant a ddigwyddodd ynghynt yn y system addysg yn ôl at ei gilydd.

  Mae ysgolion uwchradd ac addysg bellach wedi ac yn parhau i fod yn atebol am eu perfformiad neu ddiffyg perfformiad, ond mae'n ymddangos nad yw ysgolion cynradd, sy'n gyfrifol am sicrhau bod y sgiliau sylfaenol yn datblygu, yn atebol ac nad yw eu gwaith yn destun yr un lefel o graffu o ran pynciau STEM neu ddatblygu sgiliau sylfaenol yn gyffredinol. Cyn y gellir gwneud cynnydd ar y materion hyn, mae'n hanfodol fod llwyddiant y sector cynradd yn cael ei asesu'n drylwyr gan ei bod yn debygol fod lefelau trosiant yn afrealistig, sy'n creu problemau a gwastraff ar hyd y system. Mae'n ymddangos y bu ESTYN yn aneffeithiol yn eu rôl yn craffu'r sector hwn, ac i'r perwyl hwnnw dylid ffurfio tasglu annibynnol dan arweiniad diwydiant er mwyn arwain yr ymchwiliad hwn.

  Ffactor ychwanegol sy'n effeithiol holl gyfnodau'r system addysg yw diffyg gallu STEM ymhlith athrawon a darlithwyr, a chafodd hyn ei gydnabod gan ESTYN mewn adroddiad diweddar ar y Sector Adeiladu yng Nghymru. Mae'n debygol iawn fod y sefyllfa honno'n

bodoli yn y sector cynradd, ac mae'n debygol o gael ei gwaethygu yn sgîl cyflwyno TGAU ychwanegol mewn Mathemateg yn y sector uwchradd, heb ddigon o feddwl na chynllunio o ran faint o athrawon cymwys sydd ar gael ar gyfer addysgu'r cymhwyster ychwanegol. Mae'n debyg mai'r realiti fydd y cymerir athrawon arbenigol a lled arbenigol oddi ar y myfyrwyr gallu is er mwyn addysgu myfyrwyr gallu canolig ac uwch, sy'n golygu y bydd y gefnogaeth i ddarpar brentisiaid yn y garfan academaidd is yn wannach. Mae angen i hyn gael ei gynllunio'n effeithiol.

- **Gwerth am arian o'r arian ychwanegol i gefnogi a hyrwyddo sgiliau STEM ac a yw'r cyflenwad presennol o sgiliau STEM yn diwallu anghenion y farchnad lafur yng Nghymru.**

  Fel y nodwyd mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, mae cyflogwyr yn dal i gwyno am ddiffyg sgiliau sylfaenol ymhlith gweithwyr o bob oed. Roedd mentrau fel Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle yn gam cadarnhaol, ond roeddent yn aneffeithiol gan nad oeddent yn gallu helpu masnachwyr sengl, sef asgwrn cefn y diwydiant adeiladu.

  Mae cost gwaith adfer ar gyfer prentisiaid a graddedigion hefyd yn bryder, gan fod hynny'n fwy a mwy drud, a dim ond y cyrff arholi sy'n elwa os yw myfyrwyr yn parhau i orfod ail-wneud cymwysterau y maen nhw'n debygol o'u methu dro ar ôl tro.

- **Cyflenwad o weithwyr addysg proffesiynol i addysgu pynciau STEM ac effaith Grantiau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon a'r Rhaglen Athrawon Graddedig ar ddenu athrawon STEM a gweithwyr addysg proffesiynol.**

  Er nad yw'n bosib inni gynnig unrhyw sylw penodol ar lwyddiant y mentrau unigol heb ddata ar faint o bobl y llwyddwyd i'w recriwtio ac a aeth yn athrawon, mae'r nodiadau uwchben y sylwadau yn adran gyntaf yr adroddiad hwn yn mynegi pryder am y sefyllfa bresennol yn y sector cynradd ac addysg bellach, ac mae'n awgrymu fod pryderon ychwanegol posib yn y sector uwchradd.

  Mae hwn yn un o ofynion allweddol llwyddo i ddatblygu STEM ar bob lefel. Mae angen mwy o waith gwella sgiliau ac asesu galluoedd ar bob lefel ar gyfer staff presennol, ac yn enwedig felly ar gyfer darlithwyr Crefftau Adeiladu addysg bellach.

- **Effeithiolrwydd y cysylltiadau addysg a busnes rhwng sefydliadau addysg a chyflogwyr STEM.**

  Mae'n ymddangos fod diflaniad Gyrfa Cymru wedi arwain at lai o weithgareddau EBP ac at ddiffyg pwrpas a ffocws clir o gymharu â'u hanterth yn yr 1980au a'r 1990au trwy'r rhwydwaith EBP. Ar y gorau gellir dweud eu bod yn atebol i anghenion ysgolion yn hytrach nac anghenion diwydiant, gyda phwyslais gormodol ar weithgareddau haf diwedd blwyddyn sydd yn gam neu'n gymwys yn cael eu hystyried gan gyflogwyr yn gyfle i athrawon gwblhau tasgau diwedd blwyddyn.

  Mae'r dull trochi defaid o gynnig profiad gwaith i bob myfyriwr o fewn cyfnod byr o amser yn ystod tymor yr haf wedi golygu fod llawer o gyflogwyr wedi peidio cymryd rhan mewn cysylltiadau ag ysgolion oherwydd profiadau yn y gorffennol am nifer o resymau.

  Mae cyfle i ddatblygu cysylltiadau cadarnhaol ac ystyrlon gyda diwydiant trwy'r Fagloriaeth Gymreig newydd a'r Heriau sy'n rhan ganolog o'u strwythur.

  Mae cymwysterau lefel 2 a darpar lefel 3 CBAC hefyd yn gyfle i gyflogwyr wneud cyfraniad ystyrlon fel rhan allweddol o'u cynllunio.

A wnaed unrhyw gynnydd ar fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol a stereoteipiau rhyw o STEM a hyrwyddo arfer da er mwyn annog menywod i gaffael sgiliau STEM a dilyn gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM.

Mae nifer y dysgwyr mewn Prifysgolion Grŵp Russell yng Nghymru mewn meysydd fel Peirianneg Sifil a Phensaernïaeth yn cynnwys rhaniad bras o 50-50 rhwng dynion a menywod. Nid yw hynny'n golygu mai dysgwyr o Gymru yw'r rhain nac y bydd y dysgwyr hyn yn dewis byw a gweithio yng Nghymru neu weddill gwledydd Prydain ar ôl graddio, gan fod llawer ohonynt yn fyfyrwyr tramor. Mae niferoedd yn weddol gyson oherwydd enw da rhyngwladol y sefydliadau hyn.

Mae'r sefyllfa o ran cyrsiau fel Graddau Sylfaen, cymwysterau HNC a graddau o sefydliadau sydd wedi cael statws prifysgol yn fwy diweddar yn llai calonogol, ac mae meysydd fel Rheolaeth Adeiladu ac ati yn dal i gynnwys mwyasfrif amlwg o fyfyrwyr gwrywaidd.

Cyrsiau Crefft a Thechnegol a Phrentisiaethau sy'n cynnwys y ganran uchaf o ddysgwyr gwrywaidd, a phrentisiaethau sy'n cynnwys y ganran isaf o fenywod yn ymuno trwy'r llwybr hwn. Mae hynny'n wir hefyd o'r Llwybr Peirianneg Sifil a lansiwyd yn ddiweddar ar lefel 3 (technegol), gan na wnaeth unrhyw ddysgwyr benywaidd geisiadau am leoedd yn Ne Ddwyrain Cymru.

Dros y blynyddoedd, mae CITB wedi cynnal nifer o fentrau o brofiad gwaith wedi'i ariannu i fenywod a digwyddiadau gweithredu cadarnhaol, ac mae rhai ohonynt yn parhau hyd heddiw. Yn anffodus, ychydig iawn o effaith mesuradwy o'i gymharu â'r buddsoddiad y gellir ei weld.

Cynlluniwyd cymhwyster lefel 2 CBAC mewn dylunio a phensaernïaeth fydd ar gael o fis Medi 2014 er mwyn rhoi sylw i'r mater hwn.

Pa gynnydd a wnaed ar ddysgu sgiliau STEM trwy addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg?

O safbwynt adeiladu ac addysg, cyfyngedig yw'r cynnydd a wnaed o ran darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. I raddau helaeth mae hyn yn cael ei effeithio gan nifer o ffactorau, gan gynnwys y galw gan ddysgwyr, argaeledd darlithwyr dwyieithog a materion yn ymwneud ag asesu gwaith dysgwyr a gwaith a chostau ychwanegol a godir gan gyrff dyfarnu. Mae prinder gwirwyr ac arholwyr dwyieithog hefyd yn fater y mae angen rhoi sylw iddo.

Ar nodyn cadarnhaol mae gobaith y bydd datblygu 3 chymwyster maint TGAU i'w cyflwyno mewn ysgolion gyda CBAC yn gymorth i fynd i'r afael â'r mater hwn, gan y gellir cyflwyno'r cymhwyster gan ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd â'r staff addysgu. Bydd datblygu cymhwyster lefel 3 sydd gyfwerth â TAG Safon Uwch yn gymorth i symud ymlaen ac i barhau i ddarparu deunyddiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

CITB Cymru Wales – Ebrill 2014

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Minister for Economy, Science and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref

William Graham AM
Chair Enterprise and Business Committee

06 May 2014

Dear William

The impact of car parking charges on town centres is an issue that has been of concern to Assembly Members. However, there has been little formal research on this matter.

As you will know, the Enterprise and Business Committee in its enquiry into the Regeneration of Town Centres judged that the evidence presented regarding town centre parking was mostly anecdotal. I have therefore decided to commission a small piece of work to research the impact of varying car parking charges on town centre footfall. The research will consider:

- The existing evidence on car parking charges and town centre footfall
- What approaches to charging have been successful and unsuccessful
- The impact of varying charges on different users
- How car parking charges can be used to influence town centre footfall.

I expect case studies to be identified and based on discussions with a range of stakeholders, including businesses and local authorities, and for examples of good practice from outside of Wales to be reflected in the recommendations.

I hope that you will find the outcome of the research useful, and I will write to you again when it is completed.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Edwina Hart MBE CStJ AC / AM
Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Minister for Economy, Science and Transport

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

William Graham AM
Chair –Enterprise and Business Committee

08 May 2014

Dear William

I would like to update you on survey work that we will be carrying out over the next two months in relation to travel patterns in South East Wales.

We will be collecting data on the origin and destination of trips and the factors that influence those trips. This data is required to maintain our models of travel patterns in Wales.

We will be undertaking road side interviews and traffic counts at approximately 30 locations in and around Newport and Cardiff, postcard surveys at the Severn crossings, email questionnaires to Severn Crossing TAG customers and number plate recognition surveys along and off the M4.

We are liaising with the relevant police forces to ensure that any potential disruption is kept to a minimum.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk